

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD

P J Lucas

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms.Karyl May - Ffôn. (01443) 424045

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher 27 Ionawr 2016 am 5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2** **CYHOEDDIADAU**

- 3** **COFNODION**

- (a) Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2015 yn rhai cywir. **1- 12**
- (b) Cadarnhau cofnodion o gyfarfod arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2015 yn rhai cywir. **13 - 18**

- 4** **LLYWODRAETHU AGORED:**

- 5** **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (a) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Powderhill i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan)**

"A wnaiff yr Arweinydd roi'r newyddion diweddaraf ynglŷn â hynt y buddsoddiad gwerth 12 miliwn a gyhoeddodd y Cabinet yn ddiweddar ar gyfer ffyrdd, adfywio, cyfleusterau chwarae, prentisiaeth ac isadeiledd?"

- (b) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Bonetto i'r Aelod o'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu'r Economi a Chynllunio (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan)**

"Sut bydd y cynllun arfaethedig i gyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Trefforest yn dwyn mewnfuddsoddiad i'r Fwrdeistref Sirol?"

- (c) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Bradwick i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Diwylliant (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings)**

"A wnaiff y Cynghorydd Ann Crimmings, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Amgylchedd, roi'r diweddaraf ynglŷn â chyfraddau ailgylchu yn y Fwrdeistref Sirol?"

- (ch) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Carter i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Diwylliant (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings)**

"Sut mae'r Cyngor yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant y Lido yn y flwyddyn sydd i ddod?"


- (d) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.S.Ward i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Diwylliant (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings)**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi'r diweddaraf ynglŷn â buddsoddiad yn y gwasanaethau hamdden yn y Fwrdeistref Sirol?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 7 Adroddiad Blynyddol Cronfa Deddf Eglwys Cymru 2015/16** **19 – 54**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.
- 8 Ariannu Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif trwy ddefnyddio amodau benthyca darbodus (Prudential Borrowing)** **55 – 58**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
- 9 Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor Lleol** **59 – 70**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
- 10 Newid i Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio** **71 – 72**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol.
- 11 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Bil Llywodraeth Leol (Cymru)** **73 - 80**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
- 12 Rhybudd o Gynnig**
- Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, I.Pearce, C.Davies, S.Evans-Fear, E.Webster, M.Weaver and K.Morgan:
- "Bod y Cyngor hwn yn newid cylch gorchwyl Panel Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol i ddarparu ar gyfer proses apelio yn achos unrhyw lywodraethwr sy'n cael ei ddiswyddo o fod yn Llywodraethwr gan y Panel".

- 13 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'P. J. Lucas'. The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath.

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At: Pob aelod o'r Cyngor

20 Ionawr 2016